CYNGOR CYMUNED TREFRIW

# Adroddiad Blynyddol 2025/26

## Croeso i Adroddiad Blynyddol Trefriw a Llanrhychwyn

Eich Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol / Clerc Claddu (“y Clerc”) ydy Vikki Teasdale

Eich Cynghorwyr Cymuned (“y Cynghorwyr”) am y flwyddyn oedd:

| | | |
|---|---|---|
| Kim Ellis | Cadeirydd | Ward Trefriw |
| Jasmine Kelly | Is-gadeirydd | Ward Trefriw |
| Idris Bowen | | Ward Trefriw |
| Bronwyn Griffith | | Ward Llanrhychwyn |
| Jackie Jewett | | Ward Trefriw |

Wrth i’r flwyddyn hon ddod i ben, mae pedair sedd wag fel Cynghorwyr i’w llenwi – tair ar gyfer Trefriw ac un ar gyfer Llanrhychwyn. Cysylltwch gyda’r Clerc ar clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk neu ffoniwch 07305 316095 os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â’r Cygnor Cymuned.

Fel Cyngor Cymuned rydym yn gwneud ein gorau glas i wneud y canlynol:

- Cynrychioli a bod yn llais i’n cymunedau.
- Gweithio i gael gwasanaethau sy’n cwrdd ag anghenion lleol a gwella ansawdd bywyd ein trigolion.
- Dylanwadu, galluogi a chefnogi grwpiau cymunedol.

Cyfleusterau’r pentref y mae’r Cyngor Cymuned yn eu monitro, ac efallai yn eu rheoli, ar ran y gymuned:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mynwent Trefriw | Neuadd y Pentref | Parciau chwarae ar Ffordd Gower ac wrth Fro Geirionydd | Toiledau Cyhoeddus |

Fodd bynnag, er y byddwn yn ymgynghori’n rheolaidd gyda chyrff priodol, NID ydy’r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am y canlynol:


- Ffyrdd / Priffyrdd / Cynllunio
- Casglu Gwastraff / Sbwriel
- Tai Cyngor a Budd-daliadau
- Addysg ac Ysgolion

**Beth mae eich Cyngor Cymuned wedi bod yn ei wneud yn 2025/26**





**Estyniad i Fynwent Trefriw** Bu i sylwadau a dderbyniwyd gan y gymuned nodi y dylem greu gardd goffa, seddi a lle ar gyfer claddedigaethau a chladdu lludw. At hyn, fe wnaethom ymgysylltu gydag Ysgol Dyffryn yr Enfys i gydweithio gyda rhai o'u disgyblion i weld sut maen nhw'n rhagweld y gofod newydd hwn. Bellach mae'r plant wedi cyflwyno eu syniadau dylunio ac fe gawson nhw eu hadolygu gyda Ned Lomax, prif arddwr Gerddi Bodnant. Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion am eu mewnbwn gwerth chweil i'n cynllun. Bydd gwaith tir yn dechrau cyn bo hir ar yr ardd goffa hon.
Os hoffech chi drafod angladd anwylyd, cysylltwch gyda'r clerc ar clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk neu ffoniwch 07305 316095.




**Parciau Chwarae Plant Trefriw** Bu i Ymddiriedolwyr y Parc, y Cyngor Cymuned a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) barhau i archwilio a chynnal a chadw cyfarpar chwarae'r pentref. Mae'r holl bartïon wedi cymryd rhan mewn trafodaethau maith i ail-osod y siglen basged. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni gwaith draenio yn y parc chwarae ar Ffordd Gower yn 2026 ac yn gosod rhywfaint o arwyneb diogelwch o dan rai cyfarpar. Mae gwaith atgyweirio wedi'i gyflawni ar y wal a giât y llwybr troed ym mharc chwarae Bro Geirionydd.



Mae **Neuadd y Pentref** ar gael i'w hurio ar gyfer pob math o bethau o ddigwyddiadau rheolaidd i ddigwyddiadau untro, ac mae'n wych gweld y cyfleuster arbennig yma yn y pentref yn cael ei ddefnyddio. Boed yn ddosbarth ffitrwydd, arwerthiant cacennau elusennol, clwb ffilmiau, ceilidh neu ofod gweithio gyda wi-fi, cysylltwch gyda'r clerc ar clerk@trefriwcommunitycouncil.co.uk neu ffoniwch 07305 316095.



**Bore Coffi Misol** gyda chyfle i gyfarfod eich Cynghorydd. Cafodd y rhain eu cynnal yn Neuadd y Pentref ar ail ddydd Iau y mis gyda chroeso i bawb. Dewch am sgwrs gyda'ch cymdogion dros baned a chacen gyda chyfle i chwarae gêm o gardiau os hoffech chi.



**Coeden Nadolig a goleuadau Nadolig** Unwaith eto yn 2025/26 cafodd coeden ei rhoi fel rhodd i'r gymuned gyda thrigolion lleol yn cludo a gosod y goeden, bu inni ddiolch yn fawr iddynt am eu gwaith caled. Cafodd y goeden ei gosod unwaith eto yn iard Eglwys y Santes Fair i bawb ei gweld. Bu i'r Cyngor Cymuned helpu i gefnogi Trefriw Awyr Agored i ddarparu gwin poeth, tameidiau a mins peis yn Neuadd y Pentref.




**Cylchlythyrau** Rydym wedi rhoi'r gorau i lunio ein cylchlythyrau CCT am y tro ond byddwn yn dwyn i ystyriaeth y penderfyniad hwn pan fyddwn yn recriwtio mwy o gynghorwyr.



**Rheoli Coed** Parhaodd y Cyngor i gynyddu'r gronfa wrth gefn presennol i sicrhau bod yr arolygiadau a'r gwaith coed angenrheidiol yn parhau yn unol â'n rhaglen waith saith mlynedd.



Mae **Llwybr Trefriw 1** ger Ffordd Gower yn anffodus yn dioddef o lifogydd sawl gwaith y flwyddyn bellach. Bu i'r Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio i osod sment ar ran gyntaf Llwybr Trefriw 1 i ddarparu arwyneb mwy cadarn lle mae'n dioddef fwyaf yn ystod llifogydd.

Caiff sesiynau **Casglu Sbwriel** eu trefnu yn dymhorol i gadw ein pentref bach mor daclus â phosibl.




Cafodd **Hawliau Tramwy** eu cynnal, gydag ad-daliad rhannol gan CBSC. Bu i'r Cyngor hefyd barhau i weithio gyda grŵp Trefriw Awyr Agored i gadw Hawliau Tramwy cyhoeddus yn glir drwy gerdded ar y llwybrau a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i'r awdurdod priodol.



**Gwaith Lliniaru Llifogydd ar y B5106** Cyflwynodd CBSC gynlluniau i gau'r B5106 ger Y Ddrysfa am 12 wythnos wrth iddyn nhw godi lefel y ffordd. Fe wnaethom lobïo i gyflawni'r gwaith gyda goleuadau traffig, gan sicrhau bod y daith i Ddolgarrog yn haws i'r gymuned na dargyfeirio ar ochr bellaf y dyffryn. Rydym yn aros am wybodaeth bellach am gynlluniau a dyddiad cychwyn Conwy.



Mae gan **orsaf drenau Gogledd Llanrwst** bellach arwyddion platfform ychwanegol i gynghori teithwyr bod yr orsaf hefyd ar gyfer Trefriw, yn ogystal ag arwyddion cyfeiriadol i Drefriw ar droed neu feic.

Mae **Meinciau'r Pentref** angen gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac fe wnaeth y Cyngor osod estyll seddi newydd ar y fainc ar hyd Ffordd Gower wedi'u creu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Ni fydd y rhain yn pydru er gwaethaf y llifogydd rheolaidd yn yr ardal. Yn dilyn llwyddiant y newid hwn, mae'r Cyngor wedi dod o hyd i grant i osod estyll plastig newydd yn lle'r hen estyll pren ar y meinciau o amgylch y pentref. Rydym wedi cyflwyno ein cais ac yn aros am y canlyniad gan groesi ein bysedd. Bydd hyn yn lleddfu'r gost a'r llwyth gwaith nawr ac am flynyddoedd lawer i ddod.

**Toiledau Cyhoeddus** Roedd y toiledau cyhoeddus, wedi'u rheoli gan CBSC yn wynebu cau yn sgil y cyfyngiadau o ran eu cyllideb. Cynigiodd CSBC i gynyddu'r gost i £16,625 i barhau i wasanaethu'r toiledau cyhoeddus (a fyddai'n fwy na dwbl ein cais archebiant). Daeth CCT i gytundeb gyda CBSC i gadw'r toiledau ar agor o fis Ebrill hyd at fis Hydref, gyda CCT yn talu'r gost o £8,313. Arhosodd y toiledau ar gau dros fisoedd y gaeaf. Yn y cyfamser, yn dilyn adborth gan y gymuned, penderfynodd CCT i roi'r opsiwn llawer rhatach o portaloo ar brawf yn 2026/27. Mae uned wedi'i osod y tu allan i'r hen doiledau tan ddechrau mis Mehefin pan fyddwn yn adolygu ei llwyddiant neu beidio.

**Felly, sut mae'r Cyngor yn talu am hyn i gyd?** Mae'r Clerc yn amcangyfrif beth fydd ei angen ar y Cyngor i ddarparu'r holl wasanaethau sydd eu hangen i reoli popeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (y gyllideb) ac yna'n cyfrifo faint o archebiant sydd ei angen gan ystyried, a thynnu, incwm tebygol am y flwyddyn o bethau fel llogi'r Neuadd Bentref a ffioedd y fynwent. Caiff y swm yma yna ei gynghori i CBSC sydd yna'n codi pris y gyllideb hon ar y trigolion fel rhan o'r Dreth Cyngor blynyddol (mae CBSC hefyd yn cynnwys elfennau fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân).
Ar gyfer y flwyddyn 2025/26 y swm blynyddol gafodd ei godi ar gyfer cyllideb y Cyngor Cymuned i eiddo Band D oedd £72.62 – sef dim ond £6.06 y mis. Wedi'i atodi mae canlyniad y gyllideb am y flwyddyn.

**Gwybodaeth Bellach**

Caiff **eich Clerc** ei chyflogi yn rhan-amser gan y Cyngor Cymuned ac mae'n derbyn cyflog.

Caiff **eich Cynghorwyr** eu hethol neu gyfethol i'r swydd ac maent yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol.

**Eich Cynghorydd Sir** ydy Cynghorydd Liz Roberts sy'n mynychu ein cyfarfodydd Cyngor misol a boreau coffi pan fydd ei hamserlen waith yn caniatáu hynny. Mae modd cysylltu gyda Liz ar cllr.liz.roberts@conwy.gov.uk neu 01690 750246.

Caiff **Cyfarfodydd y Cyngor** eu cynnal yn fisol, ac eithrio ym mis Chwefror a mis Awst, ac mae'n rhaid i'r Cynghorwyr fynychu oni bai bod ganddynt reswm cymhellol dros beidio â mynychu. Yn 2025/26 cafodd cyfarfodydd y gaeaf eu cynnal ar-lein, ac yn y neuadd bentref o fis Mawrth hyd at fis Hydref.

Caiff **agenda a chofnodion cyfarfodydd** eu gosod ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned, ynghyd ag unrhyw ddogfennau perthnasol eraill. Maent hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned ar www.trefriwcommunitycouncil.co.uk. Mae gan y wefan hefyd galendr o ddigwyddiadau, dogfennau polisïau statudol ac sydd wedi'u mabwysiadu, a newyddion a gwybodaeth eraill sy'n berthnasol i'r gymuned.

**Facebook** Mae gan Gyngor Cymuned Trefriw ei dudalen Facebook ei hun er mwyn rhannu gwybodaeth bwysig. Ei enw ydy "Trefriw Community Council".

**Hyfforddiant** Mae eich Cynghorwyr a'r Clerc yn mynychu amrywiaeth o fodiwlau hyfforddiant yn ogystal â chael cyfle i fynd i gyfarfodydd a webinarau allanol i wella eu dealltwriaeth o'r gyfraith a gofynion eraill llywodraeth leol. Mae'r Clerc a'r Cadeirydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd fforwm Cynghorau Tref a Chymuned CBSC er mwyn cadw mewn cysylltiad gydag allgynnyrch sy'n bwysig i'n cymuned. Mae'r Clerc mewn cysylltiad rheolaidd gyda fforwm i Glercod.

Caiff **Ceisiadau Cynllunio** eu hadolygu wedi'u derbyn, a'u manylu yng nghofnodion cyfarfodydd.

**Di-blastig** Bu inni ymuno â Grŵp Di-Blastig Betws a'r Ardal a gweithio gyda'n gilydd i redeg digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i leihau neu gael gwared ar blastig yn yr ardal.

Mae **Diffibrilwyr** yn ac o gwmpas y pentref i'w cael yn The Princes Arms, Roualeyn Nursery, Neuadd y Pentref, croesffordd Llanrhychwyn, Caffi Crafnant, Llyn Geirionnydd, Nant BH a Chlwb Rygbi Nant Conwy.

| Crynodeb o Gyfrifon 2025/26 | £ |
|---|---|
| Archebiant | 28,607.96 |
| Ad-dalu TAW | 3,390.47 |
| Incwm o Logi Neuadd Bentref Trefriw | 1,830.92 |
| Ffioedd Mynwentydd Trefriw a Llanrhychwyn | 3,205.00 |
| Cynnal a chadw'r Llwybr Cyhoeddus, ad-daliad rhannol gan CBS Conwy | 1,000.00 |
| Cyllid buddsoddi wedi'i dynnu allan tuag at gostau<br>(i) Toiled cyhoeddus Ffordd Gower wedi'i gynyddu gan CBSC<br>(ii) Costau ailwynebu llwybr troed Trefriw 1 | £10,990.00 |
| Derbyniadau amrywiol eraill: rhodd tuag at gynnal a chadw diffibrilwyr yn y dyfodol, cyfraniad mynwent blynyddol gan War Graves Commission a llog o'r cyfrif HSBC ar gyfer y flwyddyn | 417.06 |
| **Cyfanswm Incwm** | **49,441.41** |
| | |
| Costau Rhedeg a Chynnal a Chadw Cyffredinol: | |
| Gweinyddol yn cynnwys costau cyflogi, bancio, yswiriant, offer swyddfa, costau argraffu, postio, deunydd ysgrifennu, ffôn a'r we | 14,934.34 |
| Costau cynnal a chadw a rhedeg Neuadd y Pentref | 2,775.22 |
| Costau cynnal a chadw cyffredinol y pentref | 471.25 |
| Costau cynnal a chadw a datblygu'r fynwent | 3,551.97 |
| Cynnal a chadw'r llwybr cyhoeddus | 4,238.04 |
| Gwaith cynnal a chadw coed – clefyd Gwywiad yr Onnen a gwaith diogelwch arall | 4,960.00 |
| Cynnal a chadw'r diffibrilwyr | 79.20 |
| Toiledau Cyhoeddus Ffordd Gower – cyfraniad tuag at gostau cynnal a chadw<br>Costau sefydlu ar gyfer y Portaloo yn dilyn cau'r toiledau cyhoeddus | 9,975.60<br>235.20 |
| Parc Chwarae Ffordd Gower – cyfraniad tuag at gostau ail-osod y siglen basged | 1,264.80 |

| | |
|---|---|
| Llywodraethu | |
| Ffioedd archwilio, cyngor a ffioedd cyfreithiol/proffesiynol, hyfforddiant, tanysgrifiadau a lwfans cynghorwyr | 1,179.55 |
| Gwybodaeth Gyhoeddus | |
| Gwasanaethau cyfieithu | 366.38 |
| Rhoddion | |
| (i) Rhoddion a wnaed i Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy a Marie Curie<br>(ii) Rhodd flynyddol i'r Lleng Brydeinig Frenhinol am ddarparu torch pabi ar gyfer Gwasanaeth Coffa'r gymuned | 275.00 |
| Amrywiol | |
| Cronfa Ddewisol y Cadeirydd a Dathliadau'r Pentref | 264.98 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **44,571.53** |
| | |
| Cyllid o gyllideb 2025/26 i'w drosglwyddo wrth aros am wariant a ragwelir neu i'w drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd | |
| Costau Rhedeg a Chynnal a Chadw Cyffredinol: cyflogi, costau swyddfa, cynnal a chadw/atgyweirio yn y pentref a chynnal a chadw/atgyweiriadau cyffredinol y neuadd bentref | 2,096.32 |
| Llywodraethu: ffioedd archwilio | 1,425.45 |
| Parciau chwarae Ffordd Gower a Bro Geirionydd | 1,302.25 |
| Toiled Ffordd Gower | 3,803.50 |
| Clefyd Gwywiad yr Onnen a gwaith coed cyffredinol | 640.00 |
| Diffibrilwyr | 714.00 |
| | |
| Cronfeydd wrth gefn penodol yn y cyfrif buddsoddi ar 31/03/2026 | **41,758.15** |
| Arian yn y cyfrifon HSBC ar 31/03/2026 | **23,342.60** |